OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 11

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**16.** Yn Atodlen 6 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ym mharagraff 18(2)(b), yn lle is-baragraff (iv) rhodder—

"(iv) y ceisydd, nad yw'n aelod o gwpl, yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 yr wythnos ar gyfartaledd, a bod—

(aa) swm cymwysadwy'r ceisydd yn cynnwys premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 3 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 3; neu

(bb) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith; neu

(v) y ceisydd yn aelod o gwpl ac o leiaf un aelod o'r cwpl hwnnw yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod yr aelod hwnnw o'r cwpl—

(aa) yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 3 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 3; neu

(bb) yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith."